WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 641A2012 |
| **Dyddiad** | 28 Ionawr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **7** |

Annwyl Mohammed

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae’r llythyr hwn yn crynhoi’r casgliadau allweddol sy’n codi o’m gwaith mewn perthynas â chynllunio ac adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 17 Medi 2012, mae’r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant;
- fy sylwadau ar i ba raddau mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy’n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Cynllunio Gwelliant

### Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Er bod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu cynlluniau gwelliant cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, nodais yn fy llythyr ym mis Medi, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, fod y Cyngor wedi penderfynu datblygu Cynllun Corfforaethol newydd yn dilyn cryn dipyn o ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion a'i staff, gan gynnwys:

- Arolwg Trigolion: ymatebodd 2,256 o aelwydydd i arolwg;
- Arolwg Cyhoeddus: ymatebodd 1,228 o bobl i arolwg ar wefan y Cyngor ac mewn canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ac ardaloedd derbyn y Cyngor;
- gweithdai gyda phobl ifanc.

Cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Corfforaethol newydd ac fe'i cyhoeddodd ym mis Hydref 2012. Daeth fy ngwaith archwilio ac asesu i'r casgliad bod Cynllun Corfforaethol y Cyngor, 'Cynllun Corfforaethol 2012-17: Cyngor rhagorol, yn agos at y gymuned', yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cyngor wedi nodi rhesymeg glir dros ddethol y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella, yn seiliedig ar ei berfformiad presennol, safbwyntiau rhanddeiliaid a phartneriaid a gweithgarwch ymgynghori diweddar â dinasyddion. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu fersiwn Gymraeg o'r Cynllun ac wedi darparu fersiynau cryno ar ei wefan ac yn ei gylchlythyr, 'Llais y Sir'.

Mae gan Gynllun Corfforaethol y Cyngor saith Amcan Gwella mewn perthynas ag: addysg ac adeiladau ysgolion; datblygu'r economi leol; gwella ffyrdd; amddiffyn pobl sy'n agored i niwed; strydoedd glân a thaclus; sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael; a moderneiddio'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir yr hyn y mae'r Amcanion Gwella yn anelu at ei gyflawni ac wedi cynnwys manylion bras, wedi'u cysylltu â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig, am yr adnoddau sydd ar gael, o ran refeniw a chyfalaf, i helpu i'w cyflawni.

Nid yw eglurder y cyswllt rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau gwella ategol yn gyson eto ar draws pob un o'r saith Amcan Gwella. Mae rhai cysylltiadau yn glir iawn ac yn dangos effaith fwriadedig y gwelliant. Mae'r mesurau llwyddiant ar gyfer yr Amcan Gwella i wella ffyrdd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar ostyngiad cyffredinol yng nghanran y ffyrdd y bernir eu bod mewn cyflwr gwael, a gwelliant o ran lefelau boddhad trigolion ag ansawdd ffyrdd. Felly mae'r hyn y mae'r Cyngor yn anelu at ei wella yn glir.

Mewn rhai Amcanion Gwella eraill, nid yw'r mesurau ar gyfer asesu a oes unrhyw un yn well ei fyd mor fanwl nac effeithiol eto. Noda'r Cyngor ei fod yn bwriadu ymdrin â'r mater hwn erbyn Gwanwyn 2013 drwy gyhoeddi'r canllawiau technegol a fydd yn diffinio dangosyddion i fesur llwyddiant ym mhob un o'r Amcanion Gwella a'r 'trothwy rhagoriaeth' y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyflawni yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y Ddeddf) yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cyswllt amlwg rhwng y gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu Amcanion Gwella o dan y Mesur. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth am waith y Cyngor ym maes cydraddoldeb, yn arbennig mewn perthynas â gwaith ymchwil ac adroddiadau ar bynciau sy'n ymwneud â grwpiau gwarchodedig a chynlluniau'r Cyngor i ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn y dyfodol. Credwn fod y Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf wrth bennu ei Amcanion Gwella.

## Adrodd ar Welliant

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod Adroddiad Perfformiad 2011-12 yn bodloni gofynion y Mesur; ond
- gellid cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy wella ansawdd rhai o'r mesurau a'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu gwelliant.

## Mae Adroddiad Perfformiad 2011-12 yn bodloni gofynion y Mesur

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am fod yr Adroddiad Perfformiad (yr Adroddiad):

- ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor, a gellir darparu fersiynau mewn Braille ac ieithoedd eraill ar gais;
- yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ac yn nodi'n glir sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol;
- wedi'i gyhoeddi cyn y terfyn amser statudol, sef 31 Hydref 2012;
- yn darparu ffocws clir a strwythuredig ar gynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Gwella;
- yn gryno ac wedi'i ysgrifennu'n raenus ac, ar gyfer y rhan fwyaf o'r Amcanion Gwella a bennwyd ar gyfer 2011-12, yn nodi perfformiad amlwg yn seiliedig ar ganlyniadau, ac yn cysylltu'r Amcanion Gwella â'r tablau dangosyddion perfformiad statudol ac allweddol.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys esboniad o sut y mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif am y gwelliant hwnnw. Fel y Cynllun, mae wedi'i strwythuro o amgylch yr Amcanion Gwella.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Cyngor yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac esboniad cryno o'r prif lwyddiannau a methiannau wrth gyflwyno rhai o'r prosiectau allweddol a bennwyd i Amcanion Gwella'r Cyngor a blaenoriaethau strategol eraill. Yng Nghynllun Corfforaethol 2009-12, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad i ddod yn 'Gyngor sy'n Perfformio'n Uchel, Yn Agos at y Gymuned' a dewisodd 19 o ddangosyddion cenedlaethol er mwyn barnu ei berfformiad. Mae prif gorff yr Adroddiad yn cynnwys rhestr lawn o'r prosiectau sy'n gysylltiedig â phob un o'r pum Amcan Gwella a'r blaenoriaethau strategol. Rhoddir gradd coch, oren, melyn neu wyrdd i bob dangosydd a mesur perfformiad er mwyn nodi gwerthusiad y Cyngor o'r graddau y llwyddwyd i gyflawni'r allbwn neu'r canlyniad bwriadedig yn ystod y flwyddyn. Lle na chyflawnwyd yr allbwn neu'r canlyniad, mae'r Adroddiad yn cynnwys sylwebaeth esboniadol gryno.

Mae trydedd adran yr Adroddiad yn cynnwys Crynodeb o Berfformiad Corfforaethol gan ddefnyddio strwythur thematig sy'n cwmpasu: diogelu; yr amgylchedd a chludiant; tai; addysg; a hamdden a diwylliant. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys manylion am berfformiad y flwyddyn flaenorol (lle y bo'r wybodaeth ar gael) ar gyfer pob un o'r dangosyddion, ynghyd â dadansoddiad o dueddiadau a chymhariaeth o berfformiad 2011-12 â chyfartaledd Cymru.

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddod â'i hun yn 'agosach at y gymuned', mae pedwaredd adran yr Adroddiad yn nodi cynnydd wrth gyflawni gwelliannau penodol mewn perthynas â'i chwe ardal gymunedol. Mae'r gwelliannau a bennwyd ar gyfer pob ardal gymunedol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol y cytunwyd arnynt yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Corfforaethol. Mae'r dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r gwelliannau cymunedol yn ddisgrifiadol ei natur ar y cyfan, megis yr adran ar waith i wella ardal Harbwr y Rhyl, ac nid yw bob amser yn glir sut y bu'r gwaith o fudd uniongyrchol i drigolion.

Mae adran olaf yr adroddiad yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn yr 19 o ddangosyddion cenedlaethol a ddewiswyd ganddo, ac amlinelliad o'i fframwaith rheoli perfformiad. Mae'r Cyngor o'r farn mai'r 19 o ddangosyddion cenedlaethol yw'r cyfuniad mwyaf addas o ddangosyddion i'w ddefnyddio i farnu pa un a yw'n 'Gyngor sy'n perfformio'n uchel' ond byddai crynodeb sy'n cynnwys pob un o'r 41 o ddangosyddion cenedlaethol yn rhoi asesiad cliriach a mwy cynhwysfawr o gynnydd.

### Gellid cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy wella ansawdd rhai o'r mesurau a'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu gwelliant

Caiff pob Amcan Gwella ei ategu gan gyfres o weithgareddau a mesurau a gaiff eu rheoli a'u cyflwyno gan y maes gwasanaeth priodol a'u monitro drwy gydol y flwyddyn fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Yn bwysig, mae'r Cyngor wedi cyflwyno prosesau mewnol allweddol o fewn y system hon i herio a rheoli gwelliant.

Cafwyd gennym fod yr Adroddiad Perfformiad wedi'i gyflwyno mewn ffordd glir ac yn hawdd i'w ddarllen a'i fod yn defnyddio strwythur adrodd cyson i werthuso perfformiad ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella ac adrodd arno. Mae'r Amcanion Gwella yn drawsbynciol ac yn cydnabod ac yn hyrwyddo trefniadau integreiddio ar draws gwasanaethau ac adrannau er mwyn cyflawni'r gwelliant bwriadedig yn effeithiol. Mae'r Adroddiad yn cynnwys rhai sylwadau ar feysydd lle y bu'r cynnydd wrth roi camau weithredu ar waith yn araf, neu lle mae perfformiad wedi gwaethygu. Er enghraifft, o ran y dangosydd ar gyfer rheoli risg mewn perthynas â chyfeiriadau amddiffyn oedolion, noda'r Cyngor fod perfformiad wedi dirywio, gan amlinellu'r rhesymau dros y dirywiad hwn.

Nodwyd nifer o agweddau gennym lle nad yw'r Adroddiad yn cydymffurfio cystal ag y gallai â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn benodol:

- Nid yw'r Adroddiad yn rhoi crynodeb cytbwys o gynnydd yn erbyn agweddau rhai Amcanion Gwella. Er enghraifft, un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r holl dai cymdeithasol gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae'r Cyngor wedi adrodd ar berfformiad SATC drwy amrywiol strwythurau ei fframwaith rheoli perfformiad, ond ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad. Mae cyfran y cartrefi rhent cymdeithasol a reolir gan y Cyngor a gyflawnodd SATC wedi cynyddu i 86 y cant yn 2012 ond nid yw'r Adroddiad yn nodi o gwbl mai targed Llywodraeth Cymru yw y dylai pob cartref gyflawni SATC erbyn mis Mawrth 2013. Mae'r amcangyfrif diweddaraf yn awgrymu na chyflawnir y targed yn Sir Ddinbych tan ddiwedd 2013.
- Mae ffocws y gweithgarwch mewn rhai o'r Amcanion Gwella yn gul iawn ac nid yw'n caniatáu ar gyfer asesiad cytbwys o gynnydd. Er enghraifft, mae Canlyniad Amcan Gwella ar gyfer adfywio ar dwf economaidd cynhaliol yn canolbwyntio ar dri dangosydd, a thri mesur perfformiad arall. Ni chynhwyswyd unrhyw fesurau na chamau gweithredu ychwanegol, er enghraifft, ar gynaliadwyedd nac ansawdd llety. Mae'r rhain yr un mor bwysig â'r dangosyddion presennol ar brisiau tai, a chan nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dim ond darlun rhannol a geir o ba mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio yn y maes hwn.
- Dim ond cyfeiriadau prin iawn a geir yn yr Adroddiad hefyd at statws a chanlyniadau prosiectau cydweithredol rhanbarthol ac is-ranbarthol presennol y Cyngor. Yn benodol, ni cheir unrhyw gyfeiriad at anawsterau perfformiad diweddar gyda phrosiect cydweithredol yr adran Priffyrdd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r goblygiadau i Sir Ddinbych o’r gorwariant a gofnodwyd yn 2011-12 ar gyllideb Trafnidiaeth Ysgol-Cartref Conwy, a fu'n destun adroddiad ar y cyd yn ddiweddar gan wasanaeth Archwilio Mewnol Conwy a Sir Ddinbych.

## Mae'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cydgysylltu perfformiad ac adrodd arno yn ategu trefniadau hunanwerthuso dibynadwy

Daeth fy Adroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2012) i'r casgliad bod sail gadarn i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor a'u bod yn datblygu'n foddhaol gydag arweinyddiaeth glir ac effeithiol gan uwch swyddogion a chynghorwyr. Dyna yw'r sefyllfa o hyd. Mae'r pwyllgor craffu ar berfformiad a'r cyfarfodydd herio gwasanaeth a gynhelir dwywaith y flwyddyn yn cael gwybodaeth o ansawdd cyson am berfformiad ac ar fformat sy'n hawdd ei deall. Yn ogystal â'r cyfarfodydd herio gwasanaeth, mae Cabinet y Cyngor yn adolygu perfformiad bob chwarter. Erys cyfleoedd i wella ansawdd y cwestiynau a ofynnir gan rai o aelodau'r pwyllgor yn ystod y cyfarfodydd herio gwasanaeth er mwyn sicrhau ffocws mwy cyson ar y materion priodol.

Cafwyd gennym fod y Cyngor wedi creu tîm polisi canolog cadarn sy'n goruchwylio, yn cydgysylltu ac yn rheoli perfformiad mewn modd gweithredol. O ganlyniad, mae'r

Cyngor wedi gallu rhoi system rheoli perfformiad gyson a gaiff ei deall yn glir ar waith. Mae aelodau o staff o fewn gwasanaethau yn cydnabod eu bod yn gyfrifol am eu perfformiad ac yn deall sut y mae eu gwaith yn berthnasol i'r broses o gyflawni Amcanion Gwella a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Ym mis Mehefin 2012, cyflwynwyd adroddiad gennym ar ganlyniadau ein harchwiliad o gywirdeb sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor. Er bod ein sampl eleni yn llai na samplau yn y gorffennol, roedd y canlyniadau yn foddhaol ac ni roddwyd barn amodol ar unrhyw un o ddangosyddion perfformiad y Cyngor.

Ceir enghreifftiau o drefniadau hunanwerthuso cadarn o fewn gwasanaethau unigol. Daeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i'r casgliad bod adroddiad y Cyfarwyddwr[1] yn dangos bod trefniadau arwain a rheoli perfformiad clir ar waith a bod adroddiad y Cyfarwyddwr yn rhoi esboniad cynhwysfawr a manwl o'r flwyddyn ddiwethaf, gan gyflwyno'r cyd-destun lleol gyda disgrifiad clir o'r cyflawniadau a'r heriau y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u hwynebu ac y mae'n parhau i'w hwynebu. Mae'n cyfeirio at gyflawniadau'r Cyngor a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac yn cydnabod y meysydd lle y mae angen i berfformiad wella o hyd, neu lle na ddatblygwyd gwasanaethau eto. Mae'r adroddiad hefyd yn egluro pam bod newidiadau na fyddant o bosibl yn boblogaidd i ddechrau yn cael eu gwneud, ac yn rhoi cyfle i ddarllenwyr yr adroddiad roi adborth. Mae'r Cyngor wedi rhoi datganiadau sefyllfa manwl i AGGCC ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant ynghyd â thystiolaeth ategol.

[1] Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor gan AGGCC sy'n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad Cyngor o'i berfformiad (y cyfeirir ato'n aml fel 'Adroddiad y Cyfarwyddwr'). Mae AGGCC yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o berfformiad ac yn nodi meysydd cynnydd a meysydd i'w datblygu.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu’r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a’m llythyrau blaenorol.

| | |
|---|---|
| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
| C1 | Darparu sail dystiolaeth ehangach o ran gwybodaeth er mwyn i'r Cyngor allu asesu pa un a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella. |
| C2 | Cynnwys rhagor o wybodaeth am statws a chanlyniadau prosiectau cydweithredol y Cyngor. |

Yn gywir



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau